# Y Pwyllgor Deisebau

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | **Ystafell Bwyllgora 1 – Y Senedd** |
| Dyddiad: | **Dydd Mawrth, 15 Ionawr 2013** |
| Amser: | **09:00 – 10:35** |

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:
http://www.senedd.tv/archiveplayer.jsf?v=cy_200000_15_01_2013&t=0&l=cy

## Cofnodion Cryno:

| | |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | **William Powell (Cadeirydd)**<br>**Russell George**<br>**Elin Jones**<br>**Joyce Watson** |
| Tystion: | |
| Staff y Pwyllgor: | **Naomi Stocks (Clerc)**<br>**Kayleigh Driscoll (Dirprwy Glerc)** |

### 1. Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod. Nid oedd unrhyw ymddiheuriadau.

### 2. Deisebau newydd

#### 2.1P-04-436 Gwariant a Refeniw Llywodraeth Cymru

Ystyriodd y Pwyllgor y ddeiseb am y tro cyntaf a chytunodd i ysgrifennu at y Gweinidog Cyllid ac Arweinydd y Tŷ i ofyn am ei barn ar y ddeiseb.

#### 2.2P-04-443 Hanes Cymru

Ystyriodd y Pwyllgor y ddeiseb am y tro cyntaf a chytunodd i ysgrifennu at y Gweinidog Addysg a Sgiliau i ofyn am ei farn ar y ddeiseb, a gofyn am y wybodaeth ddiweddaraf am waith y Grŵp Gorchwyl a Gorffen.

#### 2.3P-04-444 Ymgyrch 'DIG FOR VICTORY'

Ystyriodd y Pwyllgor y ddeiseb am y tro cyntaf a chytunodd i:
Ysgrifennu at y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau a'r Dirprwy Weinidog Amaethyddiaeth, Bwyd, Pysgodfeydd a Rhaglenni Ewropeaidd yn gofyn am eu barn ar y ddeiseb;
Ysgrifennu at CLlLC i ofyn sut gallai awdurdodau lleol gynorthwyo gyda chynllun o'r fath.

**2.4P-04-445 Achub ein cŵn a chathod yng Nghymru rhag cael eu lladd ar y ffyrdd**

Ystyriodd y Pwyllgor y ddeiseb am y tro cyntaf a chytunodd i ysgrifennu at Weinidog yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy yn gofyn am ei farn ar y ddeiseb, a gofyn a yw'r ddeddfwriaeth yn effeithiol ac a yw'n bwriadu cynnal adolygiad arni.

**2.5P-04-446 Rhyddhad Ardrethi Busnes i siopau elusen yng Nghymru**

Ystyriodd y Pwyllgor y ddeiseb am y tro cyntaf a chytunodd i ysgrifennu at y Gweinidog Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth a'r Gweinidog Cyllid cyn gynted â phosibl i ofyn am eu barn ar y ddeiseb a gofyn beth yw canfyddiadau'r ymgynghoriad diwethaf a phryd y mae penderfyniad yn debygol o gael ei wneud ar y mater.

**2.6P-04-447 Ymgyrch am Gerflun o Harri'r Seithfed ym Mhenfro**

Ystyriodd y Pwyllgor y ddeiseb am y tro cyntaf a chytunodd i:
Ysgrifennu at y Gweinidog Tai, Adfywio a Threftadaeth yn gofyn am ei farn ar y ddeiseb;
Holi am safbwyntiau ehangach ar y ddeiseb drwy ysgrifennu at Gyngor Sir Penfro, Parc Cenedlaethol Arfordirol Sir Benfro, Cymdeithas Twristiaeth Sir Benfro, Partneriaeth Twristiaeth De-orllewin Cymru a chymdeithasau hanesyddol perthnasol.

## 3. Y wybodaeth ddiweddaraf am ddeisebau blaenorol

**3.1P-04-404 Awyrennau Di-Beilot Aberporth**

Ystyriodd y Pwyllgor ohebiaeth ar y ddeiseb a chytunodd i rannu gohebiaeth y deisebydd â'r Gweinidog Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth a gofyn iddi ymateb i bob un o'r pwyntiau a godwyd gan y deisebydd.

**3.2P-04-346 Gofal di-dâl i blant 3 a 4 oed yng Nghymru**

Cytunodd y Pwyllgor i ohirio ystyried y ddeiseb tan gyfarfod yn y dyfodol unwaith y ceir gwybodaeth bellach gan Lywodraeth Cymru.

**3.3P-04-432 : Atal Recriwtio i'r Fyddin mewn Ysgolion**

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb a chytunodd i lansio ymgynghoriad ysgrifenedig cyhoeddus ar y ddeiseb. Yn dibynnu ar yr ymatebion i'r ymgynghoriad, gallai'r Pwyllgor gynnal sesiynau tystiolaeth lafar.

**3.4P-03-261 Atebion lleol i dagfeydd traffig yn y Drenewydd**

**3.5P-04-319 Deiseb ynghylch Traffig yn y Drenewydd**

Ystyriodd y Pwyllgor ohebiaeth ar y ddeiseb a chytunodd i:
Rannu ymateb y deisebydd â'r Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau gan ofyn iddo ymateb i'r cwestiynau a godwyd, a'i fod yn rhoi manylion am amserlen y ffordd osgoi;

Sicrhau nodyn o unrhyw benderfyniadau a chamau gweithredu sy'n codi o gyfarfodydd cyhoeddus yn y dyfodol gyda Llywodraeth Cymru ar y ffordd osgoi.

**3.6P-04-418 Enwi'r A470 yn - Brif Ffordd Tywysog Owain**

Ystyriodd y Pwyllgor ohebiaeth weinidogol ar y ddeiseb a chytunodd i ofyn am ymateb ffurfiol y deisebydd.

**3.7P-04-334 Uned Arennol Newydd yn Ysbyty'r Tywysog Siarl**

Ystyriodd y Pwyllgor ohebiaeth weinidogol ar y ddeiseb ac yn sgîl y penderfyniad i adeiladu uned arennol newydd, cytunwyd i gau'r ddeiseb. Gwnaeth y Pwyllgor longyfarch y prif ddeisebydd am ei ddyfalbarhad wrth ddilyn y mater hwn.

**3.8P-04-362 Gwasanaethau Ambiwlans ym Mynwy**

Ystyriodd y Pwyllgor ohebiaeth ar y ddeiseb a chytunodd i:
Ysgrifennu at y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn gofyn iddi roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am hynt yr adolygiad a'r canfyddiadau unwaith y bydd yr adolygiad wedi'i gwblhau;
Ysgrifennu at yr Athro Siobhan McCelland i'w hysbysu am y ddeiseb hon.

**3.9P-04-367 Achub ein Gwasanaethau Ysbyty**

**3.10 P-04-394 Achub ein Gwasanaethau - Ysbyty Tywysog Philip**

Ystyriodd y Pwyllgor ohebiaeth ar y ddeiseb a chytunodd i:
Ysgrifennu at y deisebwyr yn gofyn am eu barn ar yr ymarfer ymgynghori, ac a oeddent yn teimlo bod y cyhoedd wedi cael digon o gyfle i gyfrannu at y cynigion;
Ysgrifennu at Fwrdd Iechyd Lleol Hywel Dda yn gofyn am y wybodaeth ddiweddaraf am y penderfyniadau a wnaed yng nghyfarfod neilltuol y Bwrdd a sut mae barn y deisebwyr a'r ymgynghoriad ehangach wedi bod yn sail i benderfyniad y Bwrdd Iechyd.

**3.11 P-04-400 Safon Ansawdd NICE ym Maes Iechyd Meddwl**

Ystyriodd y Pwyllgor ohebiaeth ar y ddeiseb a chytunodd i:
Ysgrifennu at y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn amlinellu pryderon penodol a godwyd gan y deisebydd a gofyn iddi ymateb yn uniongyrchol iddynt, a gofyn am y wybodaeth ddiweddaraf am y gwaith a wneir gan swyddogion gyda NICE er mwyn mabwysiadu Safon Ansawdd NICE yng Nghymru;
Ysgrifennu at Gofal, Hafal a Mind Cymru i ofyn am eu barn ar y materion a godwyd gan y ddeiseb hon.

**3.12 P-04-413 Gwasanaethau Mamolaeth yng Nghwm Cynon**

Ystyriodd y Pwyllgor ohebiaeth ar y ddeiseb a chytunodd i ysgrifennu at Fwrdd Iechyd Lleol Cwm Taf yn gofyn pryd y gwneir penderfyniad ynghylch lleoliad yr uned, a sut y cynhelir gwaith dadansoddi pellach.

**3.13 P-04-430 Y bwriad i gau Uned Mân Anafiadau Dinbych-y-pysgod**

Ystyriodd y Pwyllgor ohebiaeth ar y ddeiseb a chytunodd i:
Ysgrifennu at Fwrdd Iechyd Lleol Hywel Dda yn gofyn am y wybodaeth ddiweddaraf am y penderfyniadau a wnaed yng nghyfarfod neilltuol y Bwrdd, gan rannu gwybodaeth y deisebydd a gofyn pa ystyriaeth a roddwyd i'r materion hyn;

Ysgrifennu at y deisebwyr yn gofyn am eu barn ar yr ymarfer ymgynghori ac a oeddent yn teimlo bod y cyhoedd wedi cael digon o gyfle i gyfrannu at y cynigion.

### 3.14 P-04-431 : Preswylwyr Sir Benfro yn erbyn Toriadau i Wasanaethau Iechyd

Ystyriodd y Pwyllgor ohebiaeth ar y ddeiseb a chytunodd i:

Ysgrifennu at Fwrdd Iechyd Lleol Hywel Dda yn gofyn am y wybodaeth ddiweddaraf am y penderfyniadau a wnaed yng nghyfarfod neilltuol y Bwrdd a pha ystyriaeth benodol a roddwyd o ran darpariaeth yr Uned Babanod Gofal Arbennig, a gofyn sut yr oedd barn y deisebydd yn sail i benderfyniad y Bwrdd Iechyd;

Ysgrifennu at y deisebwyr yn gofyn am eu barn ar yr ymarfer ymgynghori ac a oeddent yn teimlo bod y cyhoedd wedi cael digon o wybodaeth i gyfrannu at y cynigion.

### 3.15 P-04-333 Rhoi diwedd ar esgeuluso a gadael ceffylau a merlod

Ystyriodd y Pwyllgor ohebiaeth ar y ddeiseb a chytunodd i:

Ysgrifennu at y Dirprwy Weinidog Amaethyddiaeth, Bwyd, Pysgodfeydd a Rhaglenni Ewropeaidd yn gofyn sut mae'n bwriadu atgyfnerthu'r defnydd o basbortau, pryd y cynhelir ymgynghoriad ar ddeddfwriaeth bosibl a gofyn bod y deisebwyr yn cael eu cynnwys yn yr ymgynghoriad hwn;

Ysgrifennu at y pedwar Comisiynydd Heddlu a Throsedd yng Nghymru i sicrhau eu bod yn ymwybodol o'r ddeiseb.

### 3.16 P-04-406 Yn erbyn Safle yng Ngogledd Cymru yn y Cynllun Parthau Cadwraeth Morol

### 3.17 P-04-411 Deiseb yn Erbyn Parthau Cadwraeth Morol yn Sir Benfro

### 3.18 P-04-415 Cefnogaeth am Bennu Parthau Cadwraeth Morol Lefel Gwarchodaeth Uchel

Ystyriodd y Pwyllgor y tair deiseb a chytunodd i:

Ysgrifennu at Weinidog yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy yn gofyn bod y Pwyllgor yn cael gwybod y diweddaraf am waith y Grŵp Gorchwyl a Gorffen, darparu rhagor o wybodaeth am yr ymgynghoriad dilynol a gofyn bod deisebwyr y tair deiseb yn cael eu cynnwys mewn unrhyw ymgynghoriad;

Ysgrifennu at y deisebwyr yn gofyn a ydynt yn teimlo eu bod wedi cael digon o gyfle i ymgysylltu â'r broses ymgynghori.

### 3.19 P-04-419 Moratoriwm ar Ddatblygu Ffermydd Gwynt

Ystyriodd y Pwyllgor ohebiaeth weinidogol ar y ddeiseb a chytunodd i:

Ysgrifennu at Weinidog yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy yn rhannu gwybodaeth y deisebydd a gofyn am fanylion pellach ar yr ymchwil i effaith ffermydd gwynt ar dwristiaeth a chynnwys amserlen;

Gofyn am ragor o wybodaeth gan y deisebwyr am y materion a godwyd yn yr ohebiaeth.

### 3.20 P-04-414 Swyddi Cymreig

Ystyriodd y Pwyllgor ohebiaeth weinidogol ar y ddeiseb a chytunodd i ofyn yn ffurfiol am farn y deisebydd ar yr ohebiaeth weinidogol.

## 4. Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y canlynol:

Derbyniwyd y cynnig.

## 5. Y broses dderbyniadwy

Cynhaliodd y Pwyllgor drafodaeth am broses dderbyniadwy'r deisebau a chytunodd i edrych eto ar fater deisebau ar faterion nad ydynt wedi'u datganoli.

**TRAWSGRIFIAD**

Trawsgrifiad o'r cyfarfod.